

CYLCHGRAWN I FFERMWYR A THYFWYR YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO

Rhwydwaith Ein Ffermydd

Beth am edrych yn fanylach ar rai o brosiectau 'Ein Ffermydd' newydd

Ffermio a coed, perthynas symbiotig sy'n gweithio ar ffermydd.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

RHIFYN 3 - Hydref-Rhagfyr 2023
llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



LLEOLIAD:
Y Trallwng,
De Sir Drefaldwyn



FFERMWR(WYR):
Chris a Glyn Davies



FFERM:

Sector: Cig Coch

Maint y fferm (ha): 139

Nifer y da byw:

800 o famogiaid 100 o ŵyn
benyw, 30 buwch sugno,
1 tarw.



Meillion coch: yr allwedd wrth symud tuag at hunangynhaliath o ran protein ac enillion amgylcheddol?

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae Chris a Glyn wedi bod yn gwneud newidiadau ar y fferm, gydag effeithlonrwydd yn brif nod.


Gan fod costau mewnbynnau'n cyrraedd lefelau anghynladwy, bydd prosiect cyntaf Awel y Grug fel rhan o Rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio, yn canolbwyntio ar dreialu meillion coch, rhygwellt parhaol a meillion gwyn mewn cymhariaeth â phorfa barhaol i leihau mewnbynnau er mwyn cynyddu hunangynhaliath mewn protein gan leihau'r dyddiau hyd ladd o'r cyfartaledd presennol o 197 diwrnod, a'u dibyniaeth ar wrtaith Nitrogen.

Dynodwyd dau gae cyfagos sydd wedi cael eu rheoli yn union yr un fath fel porfa barhaol ar gyfer y prosiect a'u rhannu yn bedwar plot fel y dangosir yn Ffigur 1.



Ffigur 1. Y plotiau wedi eu rhannu; A1, A2, B a C a manylion yr hectar ar gyfer pob plot.

Mae'r math canlynol o wndwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer pob plot:

	Ardal Plot A1: Meillion Coch Aber HSG2 Torri'n Gynnar (25kg/ha neu 10 kg/erw) Meillion Coch AberClaret (7.4 kg/ha neu 3 kg/erw)
	Ardal Plot A2: Meillion Coch Aber HSG2 Torri'n Gynnar (25kg/ha neu 10 kg/erw) Meillion Coch AberClaret (7.4 kg/ha neu 3 kg/erw)
	Ardal Plot B: Rhygwellt Parhaol a Meillion Gwyn Aber HSG1 (37.1 kg/ha neu 15 kg/erw)
	Ardal Plot C: Rheoli – Porfa Barhaol

Cychwynnodd y prosiect ym mis Awst 2023 trwy sefydlu'r gwndwn meillion coch a'r rhygwellt parhaol a meillion gwyn trwy aredig.

Trwy gydol oes y prosiect, bydd meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt, gan gynnwys:

1. Pennu effaith cynyddu'r cynnwys protein craidd mewn silwair a dyfir gartref a gwndwn pori yn niet mamogiaid cyn ac ar ôl wyna
2. Asesu'r potensial o bori pob math o wndwn i besgi ŵyn
3. Cyfrifo mantais economaidd sefydlu a rheoli gwndwn meillion coch mewn cymhariaeth â'r gwndwn rhygwellt parhaol a meillion gwyn

Mae manteision ychwanegol i ecosystem y fferm. Mae codlysiau'n eithriadol o ddeniadol i bryfed sy'n peillio ac yn ffynhonnell fwyd bwysig iddynt trwy gydol y tymor tyfu. Mae pryfed sy'n peillio yn hanfodol ar gyfer ecosystem sy'n gweithio ac mae amrywiaeth eang o fathau o bryfed sy'n cyflawni'r swyddogaeth bwysig hon, gan gynnwys gwenyn, gloynnod byw, pryfed hofran a gwyfynod. Ochr yn ochr â monitro perfformiad y plotiau sydd wedi eu hau ar gyfer y prosiect hwn, bydd asesiad hefyd o bryfed sy'n peillio ym mhob plot treialu. O ran rhwyddineb eu hadnabod, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar gacwn.



Rhys Davies, Moor Farm

Swyddogaeth GenoCells wrth ddynodi buchod â chyfrif celloedd Somatig uchel mewn buches laeth gydag un sampl o danc laeth

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Rhys ynghyd â'i rieni Dei a Heulwen Davies wedi bod yn cynnal profion genomeg ar eu stoc ifanc i amcangyfrif eu potensial genynnol a gadael iddyn nhw wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am fridio ar gyfer eu buches o 100 o fuchod Holstein Friesian sy'n lloia yn y gwanwyn.

Er mwyn adeiladu ar y wybodaeth genomeg sydd ar gael ar gyfer y fuches, bydd y prosiect cyntaf ar Moor Farm, sy'n rhan o Rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio, yn ymchwilio pa mor gywir yw'r prawf profi laeth newydd, NMR GenoCells, wrth roi cyfrif Celloedd Somatig i fuchod unigol gan ddefnyddio un sampl o laeth tanc. Mae GenoCells yn defnyddio proffil genomeg pob buwch i ddynodi'r cyfraniad o gelloedd somatig a'i nod yw osgoi'r angen i samlo pob buwch yn unigol, sy'n cymryd llawer o amser.

Mae'r prosiect ar waith ac mae'n cymharu'r canlyniadau profi celloedd somatig GenoCells gyda'r dull profi

cofnod laeth unigol confensiynol sy'n cael ei wneud ar Moor Farm yn fisol. Bydd y prosiect yn profi'r dechnoleg GenoCells trwy ddiwedd y laethiad, sychu ym mis Ionawr 2024 ac yn y cyfnod trosglwyddo ar ôl lloia; y cyfnod pan fydd buchod fwyaf agored i fastitis a chyfrif celloedd somatig uwch i bennu a yw'n caniatáu penderfyniadau cyflymach o ran mastitis ac ymyrraeth cyfrif celloedd somatig gan arwain at well iechyd a lles, lleihau'r defnydd o wrthfotig ac yn cefnogi gweithredu therapi dethol i fuchod sych.

Dylai'r dechnoleg GenoCells arwain at arbedion costau llafur a thrydan: bydd y dadansoddiad cost a budd yn cael ei gyflawni gan ystyried y costau sefydlu cychwynnol i fuchesi nad ydynt yn gwneud profion genomeg ar hyn o bryd.

Am ragor o wybodaeth ac i ddilyn datblygiadau'r prosiectau Ein Ffermydd, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.



LLEOLIAD:
Treffynnon,
Fflint



FFERMWR(WYR):
David, Heulwen
a Rhys Davies



FFERM:

Sector: Laeth

Maint y fferm (ha): 85ha

Nifer y da byw: 100 o
fuchod sy'n lloia yn y
gwanwyn ac
80 o heffrod ifanc



A yw glaswelltir aml-rywogaeth mor amrywiol â ffermydd Cymru?

Mae prosiect newydd gan Cyswllt Ffermio yn rhoi cyfle i archwilio ymhellach y budd o ran cynhyrchiant a budd amgylcheddol a ddaw o laswelltir aml-rywogaeth ar ffermydd Cymru, mewn cymhariaeth â glaswelltir confensiynol.

Gwndwn dros dro yw glaswelltir aml-rywogaeth, y cyfeirir atynt yn aml fel gwndwn llysieuol, sy'n cynnwys cymysgedd o laswelltau, codlysiau a pherlysiau. Mae cynnwys gwndwn llysieuol yng nghylchdro pori ffermydd yn cynyddu o ran poblogrwydd yng Nghymru, gyda chyfoeth o fanteision i'w gweld yn y priddoedd, porthiant a da byw, pan fyddant yn cael eu rheoli'n briodol.


O ystyried cymhlethdod a nodweddion cyferbyniol gwndwn llysieuol mewn cymhariaeth â gwndwn glaswellt confensiynol, mae angen i'w sefydlu a'r gwaith rheoli fod yn wahanol i wndwn rhygwellt parhaol a meillion, er mwyn iddynt ffynnu. Bydd amodau naturiol y safle, fel y math o bridd, ei strwythur, ei nodweddion cemegol a'r hinsawdd hefyd yn cael effaith ar lwyddiant y gwndwn. Mae ymchwil sy'n bodoli eisoes wedi edrych ar rai o'r ffactorau hyn, ynghyd ag ymchwilio i effeithiau penodol gwndwn llysieuol ar safleoedd penodol. Ond, mae bylchau allweddol yn yr ymchwil o ran gwndwn llysieuol sy'n cynnwys nifer o wahanol rywogaethau ar draws Cymru.

Trwy gynllun treialu sy'n cael ei ddyblygu mewn caeau ar nifer o ffermydd Rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio ar draws Cymru, bydd effeithiau ail-hadu gwndwn llysieuol o ran cynhyrchiant a'r amgylchedd yn cael eu cymharu â gwndwn glaswellt confensiynol. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys perfformiad y gwndwn a'r anifeiliaid. Bydd y prosiect hefyd yn cynnig cyfle i ymchwilio i effaith amodau amrywiol ar y safle (h.y. ffermydd gwahanol ar amrywiaeth o fathau o bridd) ar lwyddiant y gwndwn.

Beth fydd yn cael ei wneud?

Bydd cae a ddewiswyd ar bob fferm sy'n cymryd rhan o Rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio yn cael ei aredig, a'i rannu yn ei hanner ar gyfer ail-hadu (ardaloedd gwyrdd ac oren yn Ffigwr 1 isod). Defnyddir canlyniadau profi pridd diweddar yn y caeau a ddewiswyd i bennu gofynion maetholion y gwely hadau (os oes unrhyw rai). Bydd y ddau gymysgedd o hadau yn cael eu hau ar y gyfradd o 34.6 kg/ha.

Mae rhai o'r ffermydd sy'n cymryd rhan wedi hau ar ddiwedd haf 2023 a bydd y prosiect yn dechrau ar ffermydd ychwanegol yng ngwanwyn 2024 oherwydd patrwm ail-hadu'r ffermydd.



Ffigwr 1. Patrwm cae'r prosiect. Ardaloedd gwyrdd yn dangos y plotiau gwndwn llysieuol a ddyblygwyd (n=3) a'r ardaloedd oren yn dangos y plotiau glaswellt-meillion a ddyblygwyd (n=3). Mae'r ardaloedd glas yn dangos y darnau y bydd anifeiliaid yn cael eu cau ohonynt i gasglu data (bydd union leoliad y rhain yn cael ei drafod gyda'r ffermwyr unigol).

Fel y gwelir yn Ffigwr 1 (Plotiau 1, 2 a 3), rhennir pob cae yn system fydd yn cael ei phori ar gylchdro. Bydd rhannu'r plot, ynghyd â'r amser a phatrwm pori yn dibynnu ar y cae, pa mor llwyddiannus fydd y gwndwn wedi sefydlu, ynghyd â pha stoc sydd ar gael. Bydd y da byw a ddewisir i bori'r cae (ŵyn ar y rhan fwyaf o ffermydd) yn cael eu rhannu yn ddau grŵp cyfartal (o ran niferoedd ac oedran/pwysau) i bori'r gwndwn llysieuol a'r gwndwn glaswellt/meillion yn annibynnol oddi ar ei gilydd. Bydd yr ardaloedd sydd wedi eu cau rhag anifeiliaid yn cael eu sefydlu trwy ddefnyddio cewyll pori a'u gosod ar hap ar ardaloedd unffurf o'r caeau.

Pa rywogaethau fydd yn cael eu cynnwys yn y gymysgedd hadau?

GWNDWN LLYSIEUOL - cyfanswm o 14 rhywogaeth, gan gynnwys rhygwellt parhaol, rhonwellt, peiswellt y waun, meillion gwyn a choch, ecotain, y godog, ysgall y meirch a maglys rhuddlas

GWNDWN GLASWELLT CONFENSIYNOL - Rhygwellt parhaol canolig a hwyr, cymysgedd o feillion a rhonwellt

Pa ddata fydd yn cael ei gasglu?

Bydd y data a fydd yn cael ei gasglu'n cynnwys -

- Ansawdd y porthiant (cynnwys macro- a microfaetholion)
- Cyfansoddiad o ran rhywogaethau
- Mesuriadau o ran cynnydd mewn pwysau byw
- Samplu gwaed (cynnwys macro - a microfaetholion)
- Samplu cyfrif wyau ysgarthol

Cesglir data pellach ar rai ffermydd, gan gynnwys mesur bioamrywiaeth.

Am ragor o wybodaeth ac i ddilyn datblygiadau'r prosiect, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.




Gwndwn llysieuol






Diadelloedd Rhaglen Geneteg Defaid Cymru

 Haen 1 -
Bridiau Mynydd ac Ucheldir

 Haen 2 -
Romney, Wyneblas
Caerlyr, Defaid Lleyrn
& Charmoise Hill



Rhaglen Geneteg Defaid Cymru – Y diweddraf

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus iawn i gael pobl i ymuno ym mis Mehefin 2023, mae gweithgareddau yn awr ar y gweill yn Rhaglen Geneteg Defaid Cymru Cyswllt Ffermio.

Mae'r ffaith bod 107 o ddiadelloedd wedi ymuno â'r rhaglen newydd sbon yn dangos yr awch dros gofnodi perfformiad yn niadelloedd Cymru, ym mridiau'r ucheldir a bridiau mynydd a'r pedwar brîd a ddewiswyd i ffurfio Haen 2 o'r rhaglen.

Bu'r rhai sy'n cymryd rhan yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Geneteg Cyswllt Ffermio i ffurfio Cynllun Gweithredu Bridio, sy'n benodol i'w diadell eu hunain. Yr amcan yw adolygu'r dangosyddion perfformiad allweddol presennol a data perfformiad diadell, er mwyn dynodi meysydd allweddol i'w gwella yn y diadell. Y nod yn y pen draw yw gwella effeithlonrwydd diadell trwy ddefnyddio data, gan effeithio ar broffidioldeb y busnes.

Mae gweithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth hefyd ar y gweill, gyda'r rhai sy'n cymryd rhan wedi eu gwahodd i ymuno â digwyddiadau ar sail gwahanol bynciau o ddiddordeb yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae gwaith prosiect hefyd yn rhan o'r rhaglen newydd, gan ganolbwyntio ar dri phwnc. Ers mis Mehefin 2023, mae gwerthoedd bridio genomeg wedi cael eu defnyddio yn arferol, gyda'r nod o ddarparu gwerthoedd bridio mwy cywir. Gweithredwyd newidiadau i'r ffordd y mae'r Mynegai Mynydd Cymreig yn cael ei fynegi hefyd, gan roi rhagolygon i'r ffermwyr o werth ariannol defnyddio hyrddod penodol.

Mae'r prosiect bridio ar gyfer ymwrthedd i lyngyr hefyd wedi dechrau. Trwy weithio ar y cyd â Techion, Innovis ac AHDB-Signet, bydd y prosiect yn cynnal profion cyfrif wyau ysgarthol ar ŵyn 22 diadell yng Nghymru, yn ogystal â phrofi gwaed i fesur lefelau IgA yn serwm y gwaed. Bydd y prosiect bridio i gael allyriadau methan is yn dechrau yn hydref/gaeaf 2023.



DOSBARTHIADAU MEISTR:

eich tocyn i wella eich busnes

Os ydych yn awyddus i ddysgu rhagor am bynciau technegol allweddol ym myd amaeth i wella perfformiad eich busnes, yna Dosbarthiadau Meistr Cyswllt Ffermio yw'r union beth i chi.

Bydd y dosbarthiadau ar arddull gweithdai yma yn rhoi cymysgedd o waith ymarferol a theori mewn grwpiau bach. Byddem yn eich annog i gymryd y cyfle i glywed gan ffermwyr profiadol, arbenigwyr amlwg ac ymgynghorwyr am amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'ch busnes.

MEISTR AR ISADEILEDD/SLYRI

Gweithdy fydd yn trafod isadeiledd y buarth a rheoli tail organig ar dir. Erbyn diwedd y cwrs byddwch wedi cael gwybodaeth am:

- › Ofynion rheoleiddiol clampiau silwair, storfeydd slyri a storio tail buarth.
- › Cyfrifiadau cynhyrchu slyri/dŵr budr ar gyfer cydymffurfio rheoleiddiol.
- › Dewisiadau o ran lliniaru i sicrhau llwybr economaidd ddoeth a chynaliadwy at gydymffurfio.
- › Strategaethau chwalu maetholion i sicrhau'r adferiad mwyaf ar faetholion a lleihau risg o lygredd
- › Integreiddio tail organig a gwrtaith wedi eu gweithgynhyrchu

MEISTR ADFYWIOL

Gweithdy i'ch cyflwyno i egwyddorion ffermio da byw adfywiol gan roi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddechrau trosi eich busnes i ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, yn ariannol ac yn gymdeithasol.

- › Trafod arferion ffermio sydd yn naturiol yn gwella iechyd a ffrwythlondeb y pridd.
- › Datblygu menter dda byw sy'n sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf gyda chyn lleied o

fewnbynau ag sy'n bosibl.

- › Deall sut i ddewis geneteg da byw sy'n ffynnu mewn system ffermio ag ychydig o fewnbynau.
- › Creu cyd-destun holistaidd i gefnogi nodau personol a busnes.

MEISTR AR BORFA

Gweithdy i roi'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol angenrheidiol i chi i gael y cynhyrchiant gorau o borfa i wella gwytnwch eich busnes a'i broffidioldeb gan leihau'r ôl troed carbon.

- › Mesur porfa gan ddefnyddio mesurydd plât a chofnodi data mewn meddalwedd rheoli porfa.
- › Dylunio system bori mewn padogau ar gyfer grŵp penodol o anifeiliaid a dynodi'r math mwyaf addas o ffens a system dŵr.
- › Defnyddio sgiliau ymarferol i godi ffens drydan barhaol a dros dro yn effeithlon gan ddefnyddio deunyddiau addas.

MEISTR AR GYNEFINOEDD FFERM

Gweithdy i wella hyder a gwybodaeth wrth ddynodi cynefin ar y fferm a'i reoli.

- › Cyfansoddiad a nodweddion rhywogaethau gwahanol gynefinoedd
- › Pam bod cynefinoedd yn bwysig
- › Rheolaeth addas ar gynefinoedd
- › Gwerth cysylltedd cynefinoedd

Detholiad bychan yw'r rhain o'r Dosbarthiadau Meistr sydd gan Cyswllt Ffermio i'w cynnig. Er mwyn cael gwybod rhagor a chofrestru eich diddordeb mewn mynychu un ohonynt, ewch i'r wefan.

DOSBARTHIADAU
MEISTR
MASTER
CLASSES

CYLLID ARBROFI

CYFLWYNIAD I'R PROSIECT



- › Mae Cyswllt Ffermio wedi datblygu'r Cyllid Arbrosi, i fynd i'r afael â phroblemau neu gyfleoedd lleol penodol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a phroffidioldeb mewn busnesau amaethyddol gan warchod yr amgylchedd.
- › Mae yna lawer o newidiadau ar y gorwel i amaethyddiaeth ac mae nawr yn amser gwych i archwilio syniad a allai fod o fudd i'ch fferm gan ganiatáu i chi fynd i'r afael â phroblemau 'go iawn' neu wirio a yw syniad ymchwil yn gweithio'n ymarferol ar eich fferm. Mae'r pedwar prosiect yma wedi derbyn hyd at £5000 o gyllid i arbrosi eu syniadau a'u gwireddu.

Bydd treial yng Nghymru yn darganfod y cnydau gorchudd gorau ar gyfer hau cnydau bresych yn y gaeaf

Gall treial ar raddfa cae yng Nghymru sy'n cynnwys tyfu gwahanol gnydau gorchudd o dan gnydau bresych helpu ffermwyr i nodi pa fathau sy'n gwarchod priddoedd rhag dŵr ffo yn y modd gorau.

Mae cnydau bresych y gaeaf yn opsiwn cynyddol boblogaidd i gynhyrchwyr da byw sy'n ceisio lleihau costau cynhyrchu gan fod pori yn y fan a'r lle yn darparu ffynhonnell ratach o fwyd y gaeaf na phorthiant arall trwy leihau'r pwysau ar siediau a lleihau costau llafur a deunydd i'w roi dan anifeiliaid.

Fodd bynnag, gall gadael priddoedd yn foel ac yn agored i wynt a glaw ar ôl pori arwain at gollu haen uchaf y pridd, sy'n niweidiol i faeth y pridd ac ansawdd dŵr.

Mae cnydau gorchudd yn fodd o angori pridd ac felly mae treial yn cael ei gynnal ar fferm bîff a defaid Bryn Hughes a Sarah Carr yn Sylfaen, Abermaw i werthuso'r cnwd mwyaf addas i'w hau mewn porthiant o fresych a maip sofr.

"Bydd y prosiect yn gwerthuso gwahanol gymysgedd o hadau ar gyfer hau cnydau bresych ac yn asesu eu heffeithlonrwydd o ran gorchudd tir, lleihau dŵr ffo, cynhyrchu porthiant a pherfformiad anifeiliaid," eglurodd Sarah.

Cafodd pum plot un hectar eu sefydlu ym mis Awst, pob un â phorthiant o faip sofr a rîp fel y cnwd i'w bori ond a dyfwyd ar y cyd â gwahanol gnydau gorchudd.

Bydd y rhain yn cynnwys cymysgedd gorchudd tir o rhonwellt, rhygwellt lluosflwydd, meillion a ffacbys, ail gymysgedd o fyswellt, diploid canolraddol, festulolium a pheiswellt y ddôl, a thrydydd plot yn tyfu cyfuniad o'r ddau.

Bydd un plot reoli hefyd heb unrhyw gnwd gorchudd ac un arall gyda thetraploid Eidalaid. Bydd y plotiau'n cael eu pori gan ddefaid y gaeaf hwn.

Yn ogystal â sgorio perfformiad da byw, bydd statws y pridd yn cael ei fonitro a bydd gwerthusiad yn cael ei gwblhau er mwyn darganfod y cymysgedd hadau mwyaf addas ar gyfer hau.



Bryn Hughes a Sarah Carr

CYLLID ARBROFI

CYFLWYNIAD I'R PROSIECT



Ffermwyr Powys yn treialu potensial llwch craig fel maetholion ar gyfer glaswellt

Mae dwy fferm laswelltir ym Mhowys yn ymchwilio i weld a all llwch craig o chwarel leol ddarparu digon o faetholion i dyfu glaswellt.

Mae craig basalt wedi'i falu'n fân a gynhyrchwyd mewn chwarel yn Llanfair-ym-Muallt wedi'i wasgaru ar hanner dau gae sy'n gorchuddio 2.4 hectar yn Upper House, Hawau, lle mae Gareth Davies yn ffermio gyda'i fab, William, ac yn Fferm Treforgan, Dolau, sy'n cael ei ffermio gan dad a mab, David a Will Lewis.

Bydd twf yn cael ei gymharu â thir lle mae basalt a gwrtaith yn unig wedi'i wasgaru a gyda ardal reoli nad yw wedi cael unrhyw driniaeth.

Aseswyd cyfansoddiad glaswellt y ddau gae ar ddechrau'r prosiect a bydd tyfiant nawr yn cael ei fonitro dros y misoedd nesaf. Bydd yr ymarfer yn cael ei ailadrodd yn y gwanwyn, ar gaeau a glustnodwyd ar gyfer silwair neu wair, a bydd yr ymateb hefyd yn cael ei fonitro.

Bydd samplau pridd cyn ac ar ôl gwasgaru hefyd yn cael eu hasesu i ganfod unrhyw wahaniaethau.

Dywed Gareth Davies, os yw canlyniadau'r prosiect yn ffafriol, y byddai'n lleihau ei ddibyniaeth ar wrtaith sy'n seiliedig ar olew.

Mae'n cyfaddef: "Nid oeddwn wedi clywed am llwch craig basalt tan chwe mis yn ôl".

Mae'n costio tua £40 y dunnell i'w gael a'i daenu.

Dywedodd Mr Davies y gall fod budd i'r amgylchedd hefyd, gan y credir y byddai ychwanegu llwch craig ar dir fferm yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer ac yn ei gloi.

Ni fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl heb gyllid a chymorth technegol gan Gyllid Arbrosi Cyswllt Ffermio, meddai.

Dywedodd Non Williams, sy'n goruchwyllo'r prosiect llwch craig basalt, fod Cyswllt Ffermio wedi datblygu'r cyllid i helpu i wella effeithlonrwydd a phroffidoldeb busnesau amaethyddol wrth warchod yr amgylchedd.

Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn cael eu rhannu â chynhyrchwyr eraill yng Nghymru ar ôl i'r prosiect ddod i ben ddiwedd 2024.



Rhai o'r ffermwyr sy'n treialu potensial llwch craig fel maetholion ar gyfer glaswellt

CYLLID ARBROFI

CYFLWYNIAD I'R PROSIECT



A ellir tyfu te yn llwyddiannus ar ffermydd mynydd Cymru?

Mae addasrwydd ffermydd mynydd Cymru i dyfu cnydau cynhyrchiol o de yn cael ei archwilio mewn astudiaeth fanwl sydd ar y gweill ym Mhowys.

Gwelodd Mandy Lloyd gyfle i ddefnyddio tir ar Cleobury Farm yn Heyope, Trefyclo, i dyfu'r cnwd uchel ei werth hwn i gynhyrchu incwm ychwanegol o'i 150 erw o dir mynydd.

Er bod te eisoes yn cael ei dyfu'n llwyddiannus yn y DU, credir mai dyma'r tro cyntaf i de gael ei dyfu ar fferm fynydd.

Fel llawer o ffermydd, mae gan Cleobury wahanol fathau o dir, felly mae penderfynu pa ardaloedd sydd fwyaf priodol ar gyfer plannu llwyni te, lle maent yn fwyaf tebygol o ffynnu a chynhyrchu'r cnwd gorau yn gamau cyntaf pwysig.

Mae cant a deugain o lwyni te *Camellia sinensis* yn cael eu tyfu ar blotiau gwahanol o amgylch y fferm, gyda'r safleoedd hynny'n cael eu dewis trwy broses a elwir yn ddadansoddiad geo-ofodol, sy'n cynnwys asesu cysondeb y cnwd â

lleoliadau daearyddol yn seiliedig ar ffactorau gan gynnwys hinsawdd, dwyster golau a nodweddion y pridd.

"Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar y wybodaeth bresennol, a gellid ei gymhwyso i gnydau newydd eraill," meddai.

"Rydym yn ceisio arallgyfeirio cnydau gyda'r nod o wella proffidoldeb yn ein busnes amaethyddol wrth warchod yr amgylchedd, gwella amrywiaeth a chynhyrchu cnwd o safon uchel yn yr hirdymor."

Mae Mandy, sydd hefyd yn ffermio biff a defaid, yn gobeithio y bydd tyfu'r cnwd hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fioleg y pridd, yn enwedig ar dir lle mae glaswellt yn brin.

Mae angen cadwyn gyflenwi bwyd a diod leol sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol, gan ddarparu cynnyrch maethlon, hirdymor i brynwyr.

"Mae cadw elw'n lleol yn dod â buddion ehangach, gydag economi leol lewyrchus a mwy o wariant, gan arwain at fwy o gyflenwad a chyfluoedd swyddi pellach, gan greu cymunedau cydlynol."



Amanda Lloyd

CYLLID ARBROFI

CYFLWYNIAD I'R PROSIECT



Gallai treial Maglys helpu ffermydd defaid wrthsefyll newid hinsawdd

Mae fferm ddefaid yng Nghymru yn gobeithio gwella gwytnwch yn ei system pesgi ŵyn drwy dyfu maglys sy'n oddefgar i sychder.

Mae gan y cnwd sy'n gwreiddio'n ddwfn sy'n sefydlogi nitrogen ac sy'n cynnwys nifer uchel o brotein y potensial i fod yn borthiant delfrydol ar gyfer pesgi ŵyn ar Fferm Newton, Aberhonddu.

Mae'r teulu Roderick yn ymchwilio i weld a all tyfu maglys wneud eu busnes yn fwy gwydn i dymhorau pori sychach, ac yn erbyn prisiau porthiant cyfnewidiol trwy ddisodli dwysfwd a brynwyd i mewn.

Mae'r fferm, sydd ar lan sy'n wynebu'r de ac sydd â phriddoedd sy'n draenio'n rhydd, yn dueddol o weld y tir yn llosgi yn ystod haf sych a phoeth.

Dywed Richard Roderick, gyda hinsawdd sy'n newid yn debygol o arwain at yr hafau hynny'n dod yn rhywbeth cyffredin, gallai maglys fod yn rhan o gymysgedd o atebion sy'n gwneud busnesau ffermio yng Nghymru fel ei fusnes ef yn fwy gwydn.

Mae Mr Roderick yn newid ei system ddefaid ar hyn o bryd, gyda chynlluniau i wna mwy o ddefaid yn yr awyr agored ym mis Ebrill er mwyn lleihau faint o ddwysfwd a ddefnyddir a chostau porthiant. Daw'r newid hwn gyda phryder bod yn rhaid iddo gael ffynhonnell ddibynadwy o bori o safon uchel i dyfu a phesgi ŵyn drwy gydol yr haf.

Mae'n bwriadu tyfu 9.7 hectar o faglys, gan gynnwys byswellt a rhonwellt yn y gwndwn. Bydd y cnwd, a fydd yn cael ei blannu yn ystod tymor y gwanwyn 2024, yn cael ei bori mewn cylchdro gan ŵyn hyd at eu pesgi.

Bydd ei gynnyrch yn cael ei fonitro a bydd ŵyn yn cael eu pwyso ar adegau allweddol yn ystod y treial gyda'u pwysau'n cael eu cymharu ag ŵyn sy'n pori glaswellt a meillion, i weld a all sicrhau manteision ariannol cadarnhaol i'r busnes o'i gymharu â'r bwydydd hynny.

Bydd iechyd yr ŵyn a baich llyngyr hefyd yn cael eu monitro gyda chymorth gan Filfeddygon Honddu, Aberhonddu. Mae Mr Roderick yn gobeithio y gallai maglys leihau ôl troed carbon y fferm ymhellach drwy gyflymu cyfnodau pesgi ŵyn.

Dywed Mr Roderick nid yn unig y mae potensial i hyn fod o fudd i'w fferm ei hun ond hefyd i eraill yn y rhanbarth gan y bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu'n eang â'r diwydiant.



Richard Roderick

Manteisiwch ar gyfraniad o hyd at 90% sydd ar gael tuag at:

CYNLLUNIO RHEOLI MAETHOLION

Gall Cyswllt Ffermio roi cyngor ar reoli pridd a maetholion gan gynnwys samplau pridd.

- Argymhellion ar ganlyniadau dadansoddi pridd ar gyfer Ph, ffosffad (P), potash (K) a magnesiwm (Mg) a math o bridd
- Bydd y cynllun yn gosod y mewnbynnau maetholion i naill ai godi, lleihau neu gynnal ffrwythlondeb y pridd
- Bydd hefyd yn cyfrifo'r gyfradd gwrrtaith fwyaf priodol ar gyfer y cnwd
- Rhoddir cyngor ar gyfradd chwalu ac amseriad tail organig a rhoi cyfrif am eu cyfraniad maethol
- Asesu gwedd y pridd a strwythur y pridd i wella'r broses rheoli pridd ar gyfer cynhwysedd dal dŵr a draeniad a fydd yn arwain at well defnydd o faetholion a llai o risg o golli pridd a dŵr ffo


Mae mynd i'r afael â rheoli pridd a maetholion a rheoli tail buarth yn hanfodol os ydych yn anelu at redeg busnes gyda'r canlyniadau gorau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol, neu ffoniwch y ganolfan wasanaeth.

 **03456 000 813**

 **[llyw.cymru/cyswlltffermio](https://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)**

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg
We welcome calls in Welsh



MENTORA

Ymunodd pedwar ar bymtheg o fentoriaid newydd â thîm Cyswllt Ffermio ac maent yn awyddus iawn i rannu eu profiad, arweiniad a safbwyntiau i gefnogi ffermydd eraill ar draws Cymru. Erbyn hyn, mae dros 80 o fentoriaid a all ddarparu hyd at 15 awr o gymorth un i un wedi ei ariannu'n llawn i unigolion sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

MENTORA
MENTORING

Dyma rai o'n Mentoriaid mwyaf newydd:



CAROLINE DAWSON

Yn: Sir y Fflint **Sector:** Arallgyfeirio

Arbenigedd Allweddol: Rheoli Busnes a Chynllunio, Gwerthu Uniongyrchol, Arloesi, Marchnata, Datblygiad Personol, Twristiaeth

Ar ôl rhedeg nifer o fusnesau gwledig llwyddiannus yn cynnwys bwyd, llety, gweithgareddau awyr agored, a'i hymgyngoriaeth wledig ei hun – a oedd yn cynnwys ymdrin â'i chyllid ei hun, datblygiad personol ac adnoddau staffio, mae gan Caroline brofiad personol sylweddol o'r hyn y mae'n ei gymryd i sefydlu a rheoli menter arallgyfeirio lwyddiannus ar fferm.



GERAINT DAVIES

Yn: Meirionnydd **Sector:** Biff, Organig a Defaid

Arbenigedd Allweddol: Pori er Lles Cadwraeth, Rheoli Glaswelltir, Ffermio Adfywiol, Ansawdd Dŵr, Rheoli Coetir

Mae Geraint, wedi gweithio yn y byd amaeth ers dros 25 mlynedd. Mae'r ffermwr blaengar hwn yn cyfuno ffermio - yn organig yn bennaf - a chynhyrchu bwyd gyda rheoli'r amgylchedd a'r adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.



PAUL ROLT

Yn: Sir Gaerfyrddin **Sector:** Sir Gaerfyrddin

Arbenigedd Allweddol: Gwerthu Uniongyrchol, Arloesi, Ffermio Adnewyddol, Ynni Adnewyddadwy, Twristiaeth

Mae gan Paul dros ugain mlynedd o brofiad o fod yn berchen ar fusnesau gwinllan a'u rhedeg, gyda chynigion i dwristiaid fel rhan o'r busnes ehangach. Mae ei sgiliau pobl gwych a'i wybodaeth am y pwnc yn golygu ei fod yn croesawu'r cyfle i rannu ei brofiad a'i wybodaeth a all gyfrannu 'mewn rhyw ffordd fach' at lwyddiant gwinwyddaeth yng Nghymru.



RACHEL THOMAS

Yn: Sir Benfro **Sector:** Arallgyfeirio, Garddwriaeth

Arbenigedd Allweddol: Rheoli a Chynllunio busnes, Marchnata, Twristiaeth

Ochr yn ochr â ffermio teuluol traddodiadol, mae elfen entrepreneuriaidd Rachel wedi bod yn amlwg ers i'w theulu benderfynu trawsnewid adeiladau fferm nad oedd yn cael eu defnyddio yn fythynnod gwyliau dros 20 mlynedd yn ôl. Bu'r rhain yn fuddsoddiad cadarn, gan roi ffynhonnell incwm ychwanegol. Yn fwy arwyddocaol, fe wnaethant roi hyder i Rachel sefydlu llawer o fentrau eraill llwyddiannus yn ymwneud ag ymwelwyr.



TOM ADAMS

Yn: Bro Morgannwg

Sector: Diwydiant Llaeth, Garddwriaeth, Dofednod, Defaid

Arbenigedd Allweddol: Iechyd a Lles anifeiliaid, Meincnodi, Rheoli busnes a chynllunio, Gwerthu'n uniongyrchol, EID, Effeithlonrwydd ynni, Arloesi, Ynni Adnewyddadwy

Mae Tom yn bartner ym musnes y fferm sy'n cynnwys 350 erw o dir ger y Bontfaen, lle mae'n rhedeg menter fferm gymysg ochr yn ochr â'i dad. Mae hyn yn cynnwys gwartheg llaeth, defaid, dofednod, tatws a choed tân, sy'n arwain at lawer o werthu uniongyrchol sy'n ei gadw'n brysur iawn!



LLION JONES

Yn: Conwy **Sector:** Biff, Defaid

Arbenigedd Allweddol: EID, Rheoli glaswelltir

Mae'r cyn ffermwr Arddangos Cyswllt Ffermio, Llion, yn berchen ar fferm ucheldir 850 erw yng Nghonwy, lle mae'n ffermio biff a defaid yn bennaf. Yn frwd iawn dros ddysgu gydol oes, ni fydd fyth yn anwybyddu cyfle i ddysgu a gwella ei sgiliau trwy weithdai, gweminarau, podlediadau, grwpiau trafod yn ogystal â mynychu dyddiau agored perthnasol ac yn y blaen.



HEATHER KIRBY

Yn: Wrecsam **Sector:** Arallgyfeirio

Arbenigedd Allweddol: Gweinyddiaeth a Gwaith Papur, Meincnodi, Rheoli a Chynllunio Busnes, Cymorth TGCh, Datblygiad Personol

Ar ôl gweithio ac arbenigo mewn cyrifeg ers 17 mlynedd, gan symud ymlaen i'w swydd bresennol fel partner, mae wedi ennill swm anferth o brofiad rheoli busnes ac ariannol, gan gynghori busnesau bach newydd yn ogystal â chleientiaid mwy sydd wedi hen sefydlu. Mae'n ymfalchïo mewn bod â sgiliau cyfathrebu da yn Gymraeg a Saesneg. "Rwy'n gwrandao, dysgu, deall eu hamcanion ac yna yn rhoi'r datrysiadau busnes neu gyfarwyddyd y mae arnynt eu hangen mewn modd cryno a chlir."

Er mwyn cael gwybod rhagor am gefndir ein mentoriaid, eu sgiliau a'u harbenigedd, porwch trwy ein 'cyfeiriadur mentoriaid', y gellir ei weld ar: gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/mentora

Ffermio a choed, perthynas symbiotig sy'n gweithio ar ffermydd.

Mae angen i'r berthynas symbiotig rhwng coetir fferm a chynhyrchu bwyd cynaliadwy fodoli gan gyd-fynd i sicrhau iechyd ein hecosystemau a'r poblogaethau cynyddol yn y dyfodol.

Mae amgylchedd iach ar ffermydd cynaliadwy yn dangos bod coed a ffermio yn gweithio gyda'i gilydd ac nad yw'n fater o un neu'r llall. Er bod coed yn fuddiol i gynnal bioamrywiaeth mewn ecosystemau o'u cwmpas a darparu cynefinoedd, maent hefyd yn cyfrannu at systemau cynhyrchu bwyd cynaliadwy yn unol â deilliannau Rheoli Tir yn Gynaliadwy Llywodraeth Cymru. Ond, mae gwarchod a rheolaeth gynaliadwy coetir fferm a chynhyrchu bwyd o'r un ffermydd yn aml yn cael eu hystyried ar wahân a gan rai, yn endidau sy'n gwrthdaro. Ar un ochr, mae pryderon amgylcheddol ac ar y llall, diogelu bywoliaeth a diogelwch bwyd i'r gymdeithas ehangach. Mewn gwirionedd, mae cysylltiad anochel rhwng tynged ein coetir a chynhyrchu bwyd, a gyda newidiadau polisi yn y dyfodol yma yng Nghymru, rhaid i'r ddau weithio law yn llaw. Nid y naill neu'r llall, coed neu ffermio, ond mae'r cysylltiad agos a hirfaith a'r berthynas rhwng ffermio a choetir yn fanteisiol i'r ddwy ochr.

Felly, sut mae coetir ac amaethyddiaeth yn cefnogi ei gilydd? Mae amaethyddiaeth mewn sefyllfa unigryw i arwain ar liniaru newid hinsawdd gan gynhyrchu bwyd. Gwyddom fod coed ar ffermydd yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal amgylchedd iach trwy gymryd carbon deuocsid i mewn a rhyddhau ocsigen i'r awyrgylch gan gefnogi ecosystem iach sy'n

hanfodol i fywyd ar y ddaear. Ar gyfer amgylchedd y fferm, mae coed yn hidlo aer a dŵr, atal erydu ac mae coetir fferm yn creu manteision wrth atafaelu carbon ac ar gyfer bioamrywiaeth, yn darparu ffynhonnell i beillwyr a chynfinoedd bioamrywiol i fywyd gwylt. Mae cynhyrchu bwyd hefyd yn cael budd o:

CYSGOD: Mae nifer o fanteision yn deillio o goed sy'n bodoli a rhai newydd eu plannu ar y fferm fel coetir a sefydlwyd mewn mannau strategol ar gyfer rhoi cysgod i anifeiliaid a chnydau. Wrth i'r tywydd fynd yn fwyfwy anodd ei ragweld, mae coed yn berthnasol iawn i wella iechyd a lles anifeiliaid gan hefyd hyrwyddo manteision ychwanegol o ran cynhyrchiant anifeiliaid a chynnyrch cnydau

RHEOLI PLÂU: Mae ecosystemau coetir iach yn hyrwyddo amrywiaeth o fywyd gwylt, pryfed, corynod, ffwng a bacteria, sydd i gyd yn bwyta neu reoli plâu, gan leihau'r angen i ddefnyddio plaladdwyr masnachol ar gnydau a blannwyd gerllaw iddynt.

PEILLIO: Mae cnydau amaethyddol yn dibynnu ar beillwyr i gynhyrchu. Mae'r peillio yn ddibynnol ar fioamrywiaeth megis gwenyn, gloynnod byw, adar ac ystumod a phresenoldeb anifeiliaid yng nghoetiroedd ffermydd

ANSAWDD DŴR A CHADWRAETH: Gall coetir ar lannau afon gyfrannu at wella rheoli llifogydd a gwella ansawdd y dŵr. Gall coridorau hyd lannau nentydd ac afonydd leihau faint o ddŵr sy'n llifo oddi ar y tir a diogelu priddoedd rhag erydu.



Coed

DIOGELU'R PRIDD: Mae potensial sylweddol i ddulliau amaeth ecolegol o reoli ffermydd i gynyddu gwytnwch ein systemau cynhyrchu bwyd a gall coed ar ffermydd:

- Helpu i gynnal ffrwythlondeb y pridd trwy ddarparu maetholion o weddillion dail a lleihau erydiad y pridd uchaf llawn maetholion.
- Gall coed sy'n sefydlogi nitrogen hefyd helpu i wella ffrwythlondeb pridd trwy gylchdroi nitrogen yn yr amgylchedd a chynyddu'r cynnyrch o gnydau.
- Bydd systemau gwreiddiau dyfnach yn casglu maetholion sy'n cael eu colli dan Barth gwreiddio'r glaswellt neu gnwd ac yn eu dychwelyd i bridd yr arwyneb trwy ddail yn pydru a throsiant y gwreiddiau.
- Helpu i wella gallu'r pridd i ddal dŵr a maetholion.
- Gall rhwydweithiau gwreiddiau gyfyngu ar y cywasgu gan anifeiliaid (potsio) a chynyddu ymdreiddiad.
- Pan fydd cyfnodau o straen cynyddol (sychder), mae coed yn buddsoddi yn eu cysylltiadau mycorhisol a gallant gasglu dŵr a maetholion yn ddyfnach yn y pridd.

Mae deall beth all coed ei gyflawni ar y fferm yn hanfodol, ond wrth drosi i gynnwys coed yn y system ffermio fel ased gweithredol mae angen dynodi rhestr o amcanion clir. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen asesiad o'r cyfalaf naturiol ar y fferm. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnal set o asesiadau sy'n ymwneud â choetir, iechyd a diogelwch, bioamrywiaeth ac ôl troed carbon ar safleoedd Rhwydwaith Ein Ffermydd newydd.

Bydd yr elfennau coetir yn yr asesiad a sut y maent yn cael eu gweithredu yn yr hafaliad yn pennu'r canlyniad o ran yr incwm gorau posibl o'r ffrydiau refeniw sydd ar gael a gallant greu cyfleoedd i arallgyfeirio i nifer o ffrydiau incwm o ganlyniad i gynyddu cyfalaf naturiol. Yn y dyfodol, ni fydd perfformiad busnes gymaint am gyfaint y cynnyrch ond gall fod am sut y mae defnyddwyr yn cael gwybod am sut y mae'r cyfaint o gynnyrch yn cael ei gynhyrchu. Mae manteision aml-swyddogaeth coed i'r fferm yn rhan ganolog o'r system gynhyrchu bwyd honno.



SGILIAU A
HYFFORDDIANT
SKILLS AND
TRAINING

SGILIAU A
HYFFORDDIANT
SKILLS AND
TRAINING

Chwilio am gyngor ynghylch Bwydo eich Diadell i gael y Perfformiad Gorau?

Gall ffermwyr defaid yng Nghymru ddysgu am strategaethau maeth ar gyfer eu diadelloedd trwy gydol y flwyddyn gynhyrchu mewn gweithdy newydd sydd wedi ei gymeradwyo gan Lantra ac sydd wedi'i ychwanegu at raglen hyfforddiant iechyd a lles Cyswllt Ffermio, sy'n cael eu cyflwyno gan filfeddygon lleol a gymeradwywyd trwy Gymru gyfan.

Bydd cyfateb diet i ofynion maeth y famog a'r oen ar gyfnodau allweddol yn y flwyddyn yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

Bydd y rhai ddaw i'r gweithdy yn gweithio trwy ofynion maethol y ddiadell, gan ganolbwyntio ar yr adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.

Bydd themâu cynllunio iechyd, defnydd cyfrifol o wrthfotig ac anthelmintigau, a manteision amgylcheddol gwella cynhyrchiant, hefyd yn cael eu cynnwys trwy gydol y cwrs.

Bydd y rhai fydd yn bresennol yn y gweithdy yn:

- › Cael dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol sut i fesur ac asesu sgôr cyflwr corff defaid ar raddfa pum pwynt
- › Nodi'r pwyntiau allweddol yn y cylch cynhyrchu pan all maeth a sgôr cyflwr corff anghywir gael effaith niweidiol ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

Mae'r deilliannau dysgu eraill yn cynnwys deall sut mae penderfyniadau a wneir am faeth yn effeithio ar gynhyrchiant y ddiadell, a sut y dylai'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud o fferm i fferm ac yn seiliedig ar y sgôr cyflwr corff yn y ddiadell a'r porthiant sydd ar gael.

Bydd y rhai fydd yn bresennol hefyd yn dod i werthfawrogi gwerth cynllunio iechyd o ran profi afiechyd metabolig ac ategu elfennau hybrin a dealltwriaeth o fudd amgylcheddol rheoli maetholion yn dda.

- › Wedi ei ariannu'n llawn
- › Rhaid i bawb fydd yn bresennol fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio
- › Cwblhau Cynllun Datblygiad Personol
- › Bydd presenoldeb yn y gweithdy yn cael ei gofnodi yn Storfa Sgiliau'r unigolyn a bydd 'tystysgrif presenoldeb' Dyfarniadau Lantra yn cael ei rhoi

Cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant i ddysgu rhagor.

 **Swyddog Datblygu Lleol**

 **03456 000 813**

 **llyw.cymru/cyswlltffermio**

A ydych yn gobeithio arallgyfeirio ar y fferm?

A allai cwrs hyfforddiant neu fodiwl e-ddysgu roi'r cychwyn da sydd arnoch ei angen wrth i chi gynllunio eich menter newydd?

Os ydych yn meddwl am arallgyfeirio ar y fferm neu yn cynllunio hynny'n barod, mae nifer o gyrsiau byr a modiwlau e-ddysgu a fydd yn eich helpu i wella eich gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn allai fod o'ch blaen chi a'ch menter newydd.

Wedi eu rhestru isod mae amrywiaeth o gyrsiau byr i'ch helpu i wireddu eich cynlluniau, y cyfan wedi eu hariannu 80% ac ar gael ledled Cymru trwy rwydwaith o ddarparwyr.

- › Cynllunio Busnes Amaethyddol
- › Cynllunio ar gyfer Arallgyfeirio neu Fenter Newydd ar Fferm
- › Cynllunio a Datblygu Busnes
- › Marchnata eich Busnes
- › Cyrsiau Marchnata Digidol
- › IEMA - Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol
- › ILM - Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- › Ymwybyddiaeth, Archwilio a Rheoli Amgylcheddol

Os yw eich prosiect yn cynnwys sefydlu neu reoli coetir ar y fferm, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn:

- › Rheoli Coetir ar gyfer Cadwraeth
- › Archwilio Coed Sylfaenol
- › Plannu a Sefydlu Coetiroedd

Os nad oes gennych amser i ddilyn cwrs byr ar y funud, pam na wnewch chi edrych trwy'r dewis eang o fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael, sydd wedi eu hysgrifennu gan arbenigwyr yn y pynciau ac wedi eu hariannu'n llawn i unigolion sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

ARALLGYFEIRIO AC ARLOESI	COETIR/COED
<ul style="list-style-type: none"> • Ffermio Cydweithredol ac ar y Cyd • Effeithlonrwydd Ynni – Ffermydd Llaeth • Effeithlonrwydd Ynni – Ffermydd Dofednod • Arallgyfeirio Busnes Fferm • Cynllunio a Chyllid • Technoleg Fanwl Gywir mewn Amaethyddiaeth • Ynni Adnewyddadwy – Trydan • Ynni Adnewyddadwy – Gwres 	<ul style="list-style-type: none"> • Amaethgoedwigaeth • Manteision Coed ar Ffermydd Ucheldir • Newid Hinsawdd a Rheoli Tir • Coedwigaeth Gorchudd Parhaus • Iechyd Coed - Plâu ac Afiechydon Coed • Nodi Coed

Am ragor o wybodaeth ewch i gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant



Iechyd a Diogelwch ar y Fferm

Trin da byw

Bob blwyddyn, mae nifer o ddamweiniau angheuol ar ffermydd yn digwydd oherwydd bod ffermwyr yn bod yn hunanfodlon heb gymryd y camau priodol i sicrhau eu diogelwch rhag eu hanifeiliaid.

Pan fyddwch chi'n gweithio gyda da byw, meddyliwch am yr hyn sy'n cynyddu'r risgiau

1. Dewiswch a defnyddiwch offer pwrpasol i drin da byw yn ddiogel sydd wedi eu cynllunio yn dda ar yr iard, mewn adeilad neu mewn cae. Sicrhewch eu bod mewn cyflwr da.
2. Peidiwch byth â mynd i mewn i loc â tharw rhydd neu fuwch â llo wrth ei throed sydd heb ei chlymu.
3. Os yw'n bosibl, cadwch dda byw ar wahân i'r cyhoedd, dewiswch gaeau heb hawliau tramwy ar gyfer gwartheg sydd â lloi.

PEIDIWCH BYTH A CHYMRYD YN GANIATAOL Y BYDD ANIFEILIAID YN GWNEUD YR HYN YR YDYCH YN EI DDISGWYL IDDYNT WNEUD


www.hse.gov.uk/agriculture



Diogelwch Fferm Cymru - Farm Safety Wales



@farmsafetywales



Garddwriaeth Cyswllt Ffermio – Cyfleoedd ar gyfer Arallgyfeirio

Yn ddiweddar, cynhaliodd Rhaglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio weithdy hyfforddiant yn 'Tom Adams Fruit Tree Nursery'.

LLUOSOGI COED FFRWYTHAU

Rhesi o goed ffrwythau wedi eu lluosogi yn rhedeg o'r Gogledd i'r De i wneud y defnydd mwyaf o'r golau. Mae'r fam berllan yn cynnwys dau o bob math, maent yn cael eu plannu ar wreiddgyff rhannol-rymus. Mae'r mam goed yn cael eu tyfu mewn cordres gyda'r prif dyfiant yn tyfu ar ongl 45 gradd i leihau'r tyfiant fertigol.

Cymerir blagur oddi ar y planhigion gwreiddiol ar ddiwedd mis Gorffennaf a'u grafftio ar wreiddgyff addas. Nid yw tynnu blagur mor llwyddiannus â grafftio gyda chyfradd lwyddiant o 75-80%, ond gellir ei wneud yn yr haf, sy'n amser tawelach o'r flwyddyn, a gellir cynhyrchu nifer fwy o impynnau o'r blagur. Gall unrhyw flagur sydd wedi methu gael eu disodli gan grafftiau chwip a thafod yn y gaeaf. Prynir y gwreiddgyff i mewn a'u tyfu ymlaen, ond gall Tom dyfu ei wreiddgyff ei hun yn y dyfodol.

Gwerthir coed afalau pan maent tua 2m o uchder, pan fydd yr imp yn 1 mlwydd oed, a'r gwreiddgyff yn ddwy flwydd oed. Torrir dan wreiddiau'r coed, ac mae'r pridd yn cael ei ryddhau ym mis Tachwedd.

Mae Tom yn unigryw ym Mhrydain am gynhyrchu coed ceirios 'knip' gyda changhennau ochrol gwannach sy'n gynhyrchu iawn. Mae Tom yn tyfu 27 math o ellyg peri, sydd yn fwy na meithrinfeydd eraill yn y wlad.

COEDLAN HELYG I GREU TAENFA SGLODION COED

Mae helyg, sy'n cael eu tyfu mewn blociau, yn cael eu bôn-docio ar ôl dwy flynedd o dyfiant a'u troi yn sglodion coed ym mis Tachwedd, ychydig cyn codi'r coed afalau. Rhoddir taenfa o sglodion coed ar y coed afalau ym Mawrth/Ebrill ar ddyfnder o 10cm, sy'n parhau am tua dwy flynedd. Tyfir helyg gyda rhywogaethau coed caled cynhenid eraill fel cyll, gwern a chastanwydd pêr i greu coedlan amrywiol, cynaeafir y coed caled ar ôl 5-7 mlynedd.

Cynhyrchir sglodion coed canghennau oddi ar goed sy'n llai na 7cm o ddiamedr. Mae'r lignin yn fwy toddadwy mewn coed o ddiamedr llai, sy'n cynhyrchu cymhareb garbon i nitrogen is ac felly mae nitrogen yn cael ei ryddhau i'r pridd yn fwy cyflym wrth bydru.



FFIGWR 1
Tom Adams yn y blanhigfa coed afalau.

TOCIO

Bydd tocio yn y gaeaf yn annog tyfiant, tra bod tocio yn yr haf yn annog ffrwythau. Yn y gaeaf mae'r prif dyfiant yn cael ei dorri yn ôl i dri blaguryn er mwyn annog tyfiant ochrol. Mae rhai tyfwyr masnachol yn tocio nifer o weithiau trwy gydol y tymor tyfu i leihau'r risg o ganser ffwng (*Neonectria* spp.), gan fod llai o inocwlwm yn bresennol yn ystod amodau sychach ac mae tymheredd uwch yn galluogi coed i wrthsefyll heintiad ffwng yn well, gan eu bod yn tyfu.

CYLCHDROI

Tyfir coed afalau ar gylchdro saith mlynedd i leihau'r risg o afiechyd ail-blannu afalau, sy'n achosi i blanhigyn gael trafferth sefydlu, iddo dyfu'n wael neu farw, sy'n cael ei achosi gan ail-blannu'r un rhywogaeth yn yr un pridd. Mae'r cynydu eraill yn y cylchdro yn cael eu rheoli fel mentrau ar wahân gan dyfwyr eraill.

RHEOLI PLÂU AC AFIECHYD

Rhoddir anogaeth i flodau gwyllt i roi cynefin ac adnoddau bwyd i infertebratau buddiol fel pry hofran, buwch goch gota, adain siderog, anthocoridau, gwiddon ysglyfaethus, gwenyn meirch parasitaidd, a chwilod. Defnyddir olew garlleg i reoli plâu ac mae wedi ei gymeradwyo ar gyfer cynhyrchu organig gan Gymdeithas y Pridd.

Am fod y pridd yn draenio'n dda mae llai o beryg o bydredd y goler (*Phytophthora* sp.) sy'n cael ei achosi gan oomycetau yn y dŵr. Mae helyg yn cynnwys asid salisylic, sy'n colli ac yn helpu i bydru sborau ffwng crach afalau (*Venturia inequalis*) ar wyneb y pridd. Mae gan helyg ystumiedig fwy o asid salisylic, tra bod gan rywogaethau sy'n tyfu'n gyflymach lai o asid salisylic. Mae'r gorchudd sglodion coed hefyd yn atal gwllithod.



FFIGWR 2
Coed afalau



FFIGWR 3
Bocs gwenyn ymhlith glasbrennau

Er mwyn cael gwybodaeth am ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, ymunwch â'n rhwydweithiau Tyfwyr - drwy wefan Cyswllt Ffermio.

RHWYDWEITHIAU TYFWYR...

ysgu ac astudio rhwng cyfoedion | Cyswllt Ffermio (llyw.cymru)